



Ein cyf/Our ref: MA-(P)/ARD/4508/18

At:

Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Anfonir copi at:

Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
yng Nghymru

Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

19 Rhagfyr 2018

Annwyl Gydweithwyr

Rwyf yn cyhoeddi heddiw, mewn Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, fanylion Setliadau Refeniw a Chyfalaf Terfynol Llywodraeth Leol ar gyfer 2019-20 i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru. Mae'r datganiad hwnnw ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Drwy'r cyhoeddiad hwn, rwyf yn amlinellu fy mwriad i bennu cyllid refeniw craidd llywodraeth leol ar gyfer 2019-20 yn £4.237 biliwn. Mae hyn yn golygu, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, y bydd cynnydd o 0.2 y cant yn y cyllid craidd cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol, ar sail tebyg at ei debyg, yn 2019-20 o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y setliad dros dro wedi'u hystyried yn ofalus cyn penderfynu ar y setliad terfynol. Nid oedd yr ymatebion yn nodi unrhyw faterion a oedd yn gofyn am newid o ran dull gweithredu ar gyfer y setliad terfynol.

O'i gymharu â'r setliad dros dro a gyhoeddwyd ar 9 Hydref, mae'r setliad terfynol yn cynnwys £23.6 miliwn ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys £13 miliwn ychwanegol a neilltuwyd i lywodraeth leol drwy'r gyllideb derfynol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr. Mae'r setliad terfynol hefyd yn cynnwys £7 miliwn bellach y flwyddyn, i gefnogi'r terfyn cyfalaf cyn dechrau codi tâl am ofal preswyl i £50,000, a fydd yn cael ei roi ar waith o fis Ebrill 2019. Cymhwysir hefyd gyllid ychwanegol o £2.4 miliwn i'r awdurdodau lleol, iddynt ddarparu rhyddhad ardrethi disgresiynol i fusnesau lleol thalwyr ardrethi eraill i ymateb i faterion lleol penodol.

Yng ngoleuni'r adnoddau ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn y setliad terfynol, rwyf wedi ailystyried y cyllid gwaelodol a gyhoeddwyd ym mis Hydref ac wedi darparu £3.47 miliwn o gyllid i sicrhau na fydd unrhyw awdurdod yn gweld gostyngiad o fwy na 0.3 y cant o'i gymharu â'i ddyraniad a'i gyllid atodol ar gyfer 2018-19.

Y cyllid cyfalaf cyffredinol heb ei neilltuo ar gyfer 2019-20 fydd £193 miliwn (gan gynnwys £20 miliwn ar gyfer grant ailwampio priffyrdd cyhoeddus) a £183 miliwn yn 2020-21, yn unol â chyhoeddiad y llywodraeth i roi hwb pellach o £100m dros dair blynedd.

Fel y nodir yn llythyr y Prif Weinidog at arweinwyr yr awdurdodau lleol, disgwylir i'r pecyn cyllido gwell a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 20 Tachwedd gael ei gyplysu gan ymrwymiad gan yr awdurdodau lleol i weithio rhanbarthol, er enghraifft gyda byrddau iechyd a'r consortia addysg, i sicrhau canlyniadau gwell a mwy o gadernid, ac ymrwymiad newydd i ysbryd a llythyren telerau ac amodau'r Gweithgor Llywodraeth Leol.

Bydd manylion llawn y setliad terfynol gan gynnwys yr *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol*, ynghyd â thablau ychwanegol, yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth hon, ynghyd â'r manylion yr wyf yn eu rhyddhau am y grantiau refeniw a chyfalaf i'w darparu i lywodraeth leol, yn rhoi'r wybodaeth y mae arnoch ei hangen i bennu'ch cyllidebau a lefelau'r dreth gyngor ar gyfer 2019-20.

Hoffwn eich atgoffa ei bod yn ofynnol i bob awdurdod lleol gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol sydd i'w gweld yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a hefyd y dyletswyddau cydraddoldeb penodol lle bo'n gymwys. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol. Mae' angen ichi hefyd gymryd i ystyried eich dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wrth baratoi eich cynlluniau ar gyfer 2019-20.

Mae'r setliad terfynol hwn yn rhoi ichi'r wybodaeth y mae arnoch ei hangen i gynllunio'ch cyllideb a'ch gwasanaethau ar gyfer 2019-20 fel rhan o'ch cynlluniau ariannol tymor canolig. Dylai'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddarparu gwybodaeth am y setliad dros dro a'r setliad terfynol mewn da bryd, a hynny cryn amser cyn Lloegr, eich helpu i ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â'ch cymunedau lleol yn eich cynigion a'ch penderfyniadau am y gyllideb.

Bydd y Llywodraeth yn mynd ati yn nawr i osod Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol Rhif 1 ar gyfer 2019-20 i'w drafod yn y Cynulliad ar 15 Ionawr 2019.



Julie James AC/AM

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government